# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 6 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.18 – 14.06** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_06_03_2014&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200001_06_03_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees (Cadeirydd)**
**Leighton Andrews**
**Rebecca Evans**
**Janet Finch-Saunders**
**Elin Jones**
**Lynne Neagle**
**Lindsay Whittle**

Tystion:

**Clare Bath, Ymchwil Canser y DU**
**Dr Tom Crosby, Canolfan Ganser Felindre**
**Emma Greenwood, Ymchwil Canser y DU**
**Bernadette McCarthy, Canolfan Ganser Felindre**
**Buddug Cope, Cynghrair Geneteg y DU**
**Emma Hughes, Cynghrair Geneteg y DU**
**Hayley Norris, Patient Representative**
**Gwyn Tudor, MediWales**
**Deborah Evans, Rhwydwaith Gwyddoniaeth Iechyd Academaidd Gorllewin Lloegr**
**Professor Carl Heneghan, Canolfan Meddygaeth Seiliedig ar Dystiolaeth, Prifysgol Rhydychen**
**Dr Corinne Squire, Partneriaeth Gwyddoniaeth Iechyd Academaidd De-ddwyrain Cymru**

| | |
|---|---|
| | **Lars Sundstrom, Rhwydwaith Gwyddoniaeth Iechyd Academaidd Gorllewin Lloegr** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar, Gwyn Price a Kirsty Williams.

## 2 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 8

2.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Rhoddodd Emma Greenwood wybod i'r Pwyllgor am y cydweithrediad diweddar rhwng Cancer Research UK a GIG Lloegr a oedd yn gofyn i grwpiau perthnasol o fewn y diwydiant sut roeddent yn rhagweld maes radiograffeg mewn deng mlynedd. Cytunodd Ms Greenwood i rannu gwybodaeth am y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor.

## 3 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 9

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd Buddug Cope i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cyswllt rhwng rhaglen technoleg iechyd NICE a Rhwydwaith Profi Geneteg y DU (UKGTN).

3.3 Cytunodd Ms Cope hefyd i roi eglurhad pellach i'r Pwyllgor am y gydberthynas rhwng cymeradwyo profion newydd gan UKGTN a'u comisiynu wedyn gan GIG yr Alban.

## 4 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 10

4.1 Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i drafod eitemau 6, 7 ac 8 cyn trafod eitem 5.

## 5 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 11

5.1 Bu’r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd Lars Sundstrom, Rhwydwaith Gwyddorau Iechyd Academaidd Gorllewin Lloegr, i ddarparu nodyn ar y system newydd sydd wedi'i chyflwyno yn Lloegr (sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru), sy'n caniatáu mynediad at gyllid ac yn rhoi ffordd o gomisiynu gwaith ymchwil a datblygu drwy'r system gofal iechyd.

## 6 Papurau i’w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd blaenorol.

6.1 Llythyr gan y Prif Swyddog Nyrsio mewn perthynas â chamau gweithredu sy’n deillio o gyfarfod y Pwyllgor ar 30 Ionawr 2014

6a.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Swyddog Nyrsio.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i drafod eitem 8 yn breifat.

## 8 Trafod ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Pwyllgor ynghylch yr ymchwiliad dilynol i leihau’r risg o strôc

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch yr ymchwiliad dilynol i leihau'r risg o strôc.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n trafod camau gweithredu yn ei gyfarfod cyhoeddus ar 20 Mawrth 2014.